# Yn Fanwl – Cadw Bioamrywiaeth

## Cefndir

Cyflwynwyd y cysyniad o Fioamrywiaeth yn gyntaf yng Nghynhadledd amgylchedd a datblygiad y Cenhedloedd Unedig (a elwir hefyd yn Uwch Gynhadledd y Ddaear) yn Rio de Janeiro, Brasil ym 1992. Ei nod oedd rhoi sylw i bryderon byd-eang ynghylch yr amgylchedd a cholli rhywogaethau a chynefinoedd gwyllt. O ganlyniad, llofnododd dros 150 o wladwriaethau, gan gynnwys y DU, y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol gan ymrwymo i gadw bioamrywiaeth eu gwladwriaeth a gweithredu i'w gynnal ac i'w wella.

Y DU oedd un o'r rhai cyntaf i weithredu ar hyn a chynhyrchwyd Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DU ym 1994. Roedd yn dwyn ynghyd waith ar, ac arbenigedd ynghylch, bioamrywiaeth a hynny ar sail partneriaeth. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar ddarparu gweithrediadau a thargedau a gytunwyd ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth a nodwyd gan Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU. Nodwyd 1,250 o rywogaethau o bryder cadwraethol yn y DU yn eu hadroddiad yn 2005 ac ystyrir fod 391 o'r rhain gyda statws blaenoriaeth, ynghyd â 45 o gynefinoedd gyda statws blaenoriaeth. Gellir gweld y cynlluniau gweithredu a luniwyd i gadw a gwella'r rhain ar wefan Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU www.ukbap.org.uk/.

Aeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ymhellach i ddangos sut y dylai'r gymuned gadwriaethol gysylltu â sectorau eraill a chanfod partneriaid newydd er mwyn cyfarfod ag amcanion y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol. Daeth â bioamrywiaeth fwy i sylw'r byd cyhoeddus a gwleidyddol nag erioed a chafodd ei gymeradwyo gan y llywodraeth, yn ogystal â'r sectorau preifat a gwirfoddol.

Yn dilyn datganoli ym 1997 a datblygu strategaethau gwledydd ar gyfer darparu bioamrywiaeth, adolygwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn 2007. Cafodd y rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth eu hadolygu a nodwyd 65 o gynefinoedd â blaenoriaeth a 1,149 o rywogaethau â blaenoriaeth. Cafodd y mwyafrif o'r rhestr flaenorol eu hail ddewis, er y gadawyd ychydig allan. Awgrymodd yr adolygiad hefyd y byddai gweithredu fesul gwlad yn fwy effeithiol.

Bydd y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau fod Cymru'n darparu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn cael ei ysgwyddo gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1996 i lywio cydlynu a gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yng Nghymru. Mae'n rhoi cefnogaeth, cyngor ac arweiniad ar ddarparu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth trwy grwpiau polisi, ecosystemau a rhywogaethau arbenigol, yn annog sectorau eraill i ddatblygu ymarferion sy'n cofleidio gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac yn dal eraill yn atebol am ddarparu ac adrodd yn ôl ar eu hymrwymiadau. Fel rhan o'r broses hon, cafodd y rhywogaethau a'r cynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer cadwraeth natur yng Nghymru hefyd eu nodi o dan Adran 42 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006. Er bod y rhain yn debyg iawn i flaenoriaethau'r DU, maen nhw'n cynnwys rhywogaethau heb flaenoriaeth ychwanegol yn y DU, gan gydnabod fod rhai rhywogaethau nad ydynt yn flaenoriaeth yn y DU ond sydd, er gwaethaf hynny, o bwysigrwydd cadwraethol yng Nghymru. Mae'r rhestr i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.
Am ragor o wybodaeth ar Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, ei swyddogaethau a'i chyfrifoldebau a darpariaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru, ymwelwch â'r wefan ar www.biodiversitywales.org.uk.

## Y tu hwnt i Rio

Bron i ddau ddegawd ar ôl gweithredu'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Biolegol, mae'r gydnabyddiaeth o golled bioamrywiaeth wedi ennill proffil gwleidyddol uchel yn fyd-eang, yn genedlaethol a rhanbarthol. Yn uwch gynhadledd y gwanwyn yn Gothenburg yn 2001, cytunodd penaethiaid taleithiau a llywodraethau'r Undeb Ewropeaidd ar darged uchelgeisiol i atal dirywiad bio-amrywiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2010. Cafodd hynny'i fabwysiadau yn eu Chweched Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol yn 2002, sy'n sefydlu'r blaenoriaethau amgylcheddol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y ddeng mlynedd nesaf. Yr amcan a roddir ar gyfer bio-amrywiaeth yw 'gwarchod ac adfer strwythur a gweithredu systemau naturiol ac atal colli bio-amrywiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn fyd-eang erbyn 2010". Cafodd yr ymrwymiad hwn ei gadarnhau ymhellach yn 2004 yng Nghynhadledd Rhanddeilaid 'Bywoliaethau Cynaliadwy a Bioamrywiaeth: Cyrraedd Targed 2010 yn y Strategaeth Fioamrywiaeth Ewropeaidd' yn Malahide, a arweiniodd at 'Neges o Malahide' sy'n cynnwys y camau cyntaf angenrheidiol i gyrraedd targed 2010. Mae'r targed hwn erbyn hyn wedi'i gynnwys mewn nifer o gytundebau rhyngwladol allweddol. Mae pob un yn cydnabod fod ecosystemau a chynefinoedd yn dirywio'n gyflym, fod y bygythiad cynyddol i lawer o boblogaethau rhywogaeth a bod yn rhaid gweithredu ar frys, ac ymdrechu fel erioed o'r blaen i addasu'n gweithrediadau yn unol ag anghenion systemau naturiol.

Yn 2002 mabwysiadodd y Confensiwn dros Fioamrywiaeth Biolegol ei gynllun strategol sy'n cynnwys targed cyffredinol i leihau'n arwyddocaol y raddfa o golli bioamrywiaeth erbyn 2010. Yna cafodd hynny ei gymeradwyo gan benaethiaid gwladwriaethau a llywodraethau'r byd mewn uwch gynhadledd y byd ar ddatblygu cynaliadwy (2002) gydag un deg naw o weithrediadau yn cael eu cytuno fel modd o gyrraedd yr amcan hwn.

Erbyn hyn mae hynny wedi'i gyfuno'n llawn yn fframwaith Nodau Datblygu'r Mileniwm ac mae'r gymuned ryngwladol wedi datgan 2010 yn flwyddyn ryngwladol ar gyfer amrywiaeth biolegol.

United Nations Decade on Biodiversity

Mae Strategaeth Amgylchedd Cymru'n cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i atal colli bioamrywiaeth a sicrhau adferiad pendant o'r colledion a fu. Mae manylion gweithrediadau allweddol i helpu cyrraedd y nod erbyn 2010 yn y Strategaeth ac yn sail i ymrwymiadau'r DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn rhyngwladol i atal colli bioamrywiaeth.

Mae'r holl strategaethau bioamrywiaeth a chynlluniau gweithredu cenedlaethol i'w cael ar www.biodiv.org/reports.

# Targedau wedi eu methu a dyfodol gwarchod bioamrywiaeth

Ond, mae'n siwr eich bod wedi sylweddoli eisoes na fuasem yn dal i siarad am warchod bioamrywiaeth fel hyn pe byddai targedau 2010 wedi eu cyflawni. Er bod peth llwyddiant wedi bod mewn blynyddoedd diweddar, ychydig o gynnydd a wnaed o ran rhoi stop ar golli bioamrywiaeth.

Adroddiad yn y cylchgrawn Science ym Mai 2010 oedd yr asesiad cyntaf o sut mae'r targedau a bennwyd yn 2002 wedi eu methu[1]. Ni chafodd unrhyw dystiolaeth bod gostyngiad arwyddocaol wedi bod yn y raddfa o ddirywiad mewn bioamrywiaeth a bod pwysau ar fioamrywiaeth yn parhau i gynyddu. Mae llywodraethau wedi methu â chyflawni'r addewidion a wnaed yn 2002. Er bod enghreifftiau o lwyddiannau yn lleol ac yn genedlaethol, nid yw'r rhain yn ddigon ac yn gyffredinol mae'r sefyllfa yn gwaethygu.

Ym mis Hydref 2010 cyfarfu swyddogion o 193 o wledydd yn Nagoya, Japan ar gyfer degfed Cynhadledd Partïon i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol. Roedd hwn yn gyfle i drafod methiannau targedau 2010 ac i lywodraethau lofnodi fframwaith newydd ar gyfer cael gostyngiad mewn colled bioamrywiaeth. Mae cynllun strategol newydd wedi ei ddatblygu gyda thargedau ar gyfer 2020. Mae'n hanfodol bod y targedau newydd hyn yn rhai y gellir eu cyflawni a'u mesur, ond rhaid iddynt fod yn uchelgeisiol hefyd.

Yng Nghymru, cafwyd agwedd newydd tuag at warchod bioamrywiaeth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dogfen Fframwaith Amgylchedd Naturiol – Cymru Fyw[2] wedi ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar. Mae'n cynnwys holl agweddau'r amgylchfyd – nid bioamrywiaeth yn unig – ac yn pwysleisio rheoli tir a môr yn gynaliadwy. Mae deilliannau terfynol y gwaith i ddod yn ystod 2011-2012 ac mae posibilrwydd y bydd yn newid ein hagwedd tuag at warchod bioamrywiaeth yng Nghymru.

1 – Butchart, S. et al. (2010) Global Biodiversity: Indicators of Recent Declines. Science **328**: 1164 – 1168.
2 – Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Dogfen Ymgynghorol: Cymru Fyw – fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd.